# Sut mae llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn amddiffyn plant rhag dod ar draws fideos niweidiol

Cyhoeddwyd 14 Rhagfyr 2023

# 1. Trosolwg

Ers mis Tachwedd 2020, mae Ofcom wedi rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-lein sydd wedi'u sefydlu yn y DU, gan gynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) a llwyfannau rhannu fideos (VSPs). Ofcom bellach yw'r rheoleiddiwr diogelwch ar-lein a benodwyd o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 hefyd.

Yn Adroddiad 2022 Ofcom ar reoleiddio VSP, gwnaethom nodi bod pob llwyfan a oedd wedi hysbysu wedi rhoi mesurau diogelwch ar waith, ond roedd mwy i'w wneud. O ran amddiffyn plant, gwelsom fod angen mesurau cryfach i amddiffyn plant rhag cyrchu pornograffi a chynnwys arall sy'n amhriodol i'w hoedran. Eleni, rydym wedi edrych yn ehangach ar sut mae darparwyr VSP yn gosod, yn gorfodi ac yn profi'r mesurau y maent yn eu rhoi ar waith i amddiffyn defnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn agosach ar sut mae VSPs yn amddiffyn plant ar-lein.

**Mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar sut mae TikTok, Twitch, a Snap[1] yn ceisio amddiffyn plant rhag dod ar draws fideos a allai fod yn niweidiol. Rydym wedi canolbwyntio ar y llwyfannau hyn oherwydd eu bod yn arbennig o boblogaidd gyda phlant.**

Dim ond llwyfannau sydd â'r cysylltiad perthnasol â'r DU sy'n cael eu rheoleiddio o dan Gyfundrefn VSP y DU. Nid yw llawer o VSPs eraill - gan gynnwys YouTube ac Instagram - yn dod o dan gyfundrefn y DU oherwydd eu bod wedi'u lleoli yn rhywle arall. Felly, nid yw ein canfyddiadau'n cynrychioli'r sector VSP cyfan, ac nid ydynt ychwaith yn nodi bod TikTok, Twitch, a Snap yn well neu'n waeth na'r llwyfannau nad ydynt o fewn cwmpas Cyfundrefn VSP y DU. Ond mae ein hadroddiad yn dangos y dulliau gweithredu y mae llwyfannau'n eu defnyddio, a'r heriau y maent wedi'u hwynebu cyn y weithdrefn diogelwch ar-lein ehangach.

## Diogelwch plant ar-lein yw prif flaenoriaeth Ofcom

**Mae plant bellach yn tyfu i fyny fel brodorion digidol, gyda dealltwriaeth gref o ddefnyddio technoleg a byw gyda hi.** Nododd ymchwil ddiweddar gan Ofcom fod 96% o blant yn y DU yn gwylio fideos ar VSPs fel TikTok, Twitch, a Snap. Ond gwyddom nad yw llwyfannau bob amser yn dylunio eu gwasanaethau gyda diogelwch ac anghenion plant mewn golwg, ac nad oes gan blant bob amser yr wybodaeth na'r sgiliau i lywio'r byd digidol yn ddiogel.

**Mae plant yn fwy agored i niwed neu ddylanwad nag oedolion.** Mae plant yn wynebu llawer o risgiau gwirioneddol yn y byd digidol – efallai y byddan nhw'n gweld cynnwys sy'n dangos trais, cynnwys rhywiol, cynnwys yn hyrwyddo delwedd corff afiach, neu gynnwys sy'n annog hunanladdiad neu hunan-niweidio. Gall y rhain i gyd gael effaith barhaol ar eu bywydau. Rhaid i lwyfannau flaenoriaethu amddiffyn plant ar eu gwasanaethau a gwneud popeth o fewn eu gallu i liniaru'r risgiau hyn.

**Mae'r Gyfundrefn VSP eisoes mewn grym ac mae'n rhaid i VSPs gymryd camau nawr i amddiffyn plant.** Rhaid i VSPs sydd wedi'u rheoleiddio yn y DU amddiffyn plant rhag fideos a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol. Mae angen i lwyfannau ddefnyddio amrywiaeth o fesurau, megis sicrwydd oedran, mesurau rheolaethau mynediad a darparu systemau graddio

[1] Dim ond dwy ran o Snap sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Gyfundrefn VSP ar hyn o bryd: Spotlight, porthiant personol sy'n dangos cynnwys poblogaidd a gynhyrchir gan ddefnyddwyr; a Discover, porthiant â chynnwys wedi'i guradu gan allfeydd cyfryngau dilys a chrewyr cynnwys wedi'i fetio. Nid yw gweddill y gwasanaeth yn cael ei reoleiddio o dan y Gyfundrefn VSP.

defnyddwyr, a mecanweithiau adrodd, a fflagio i amddiffyn eu defnyddwyr - ac yn enwedig defnyddwyr sy'n blant. Disgwyliwn i VSPs weithredu'n unol â'r drefn a diogelu plant rhag cynnwys niweidiol ar-lein.

**Nid oes un ateb cyfannol y gall llwyfannau ei gymryd i amddiffyn plant ar-lein.** Er enghraifft, mae terfyn oedran ar wasanaeth yn debygol o fod yn aneffeithiol os nad oes mecanwaith i orfodi'r terfyn oedran hwn, mae'n hawdd osgoi'r mecanweithiau ac os nad oes gan gwmnïau bolisïau ar waith i ddatgelu defnyddwyr dan oed sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dengys ymchwil gan Ofcom fod gan fwy nag un o bob pump o blant 8-17 oed broffil oedolyn ar-lein (h.y., gydag oedran defnyddiwr o 18+) a bod gan draean o blant 8-15 oed broffil ag oedran defnyddiwr o 16+.

**Bydd y mesurau diogelwch y mae llwyfannau'n eu gweithredu i amddiffyn plant yn amrywio gan ddibynnu ar ffactorau fel eu math o wasanaeth, eu maint, a'u sylfaen defnyddwyr.** Dylai gwasanaethau ar-lein ddeall y risgiau y mae eu gwasanaethau'n eu peri i'w sylfaen defnyddwyr. Dylent wedyn roi mesurau diogelwch priodol a chymesur ar waith i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod plant yn cael eu hatal rhag cyrchu fideos a allai fod yn niweidiol neu'n amhriodol i'w hoedran. Mae hyn hefyd yn cydweddu â'r fframwaith rheoleiddio a fydd ar waith o dan y weithdrefn diogelwch ar-lein.

**Diogelwch plant ar-lein fydd ein blaenoriaeth o hyd wrth i ni ddechrau ein rôl ehangach newydd fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU**. O dan y drefn diogelwch ar-lein, bydd angen i lwyfannau asesu a yw plant yn debygol o gyrchu eu gwasanaethau ac os felly, gydymffurfio â dyletswyddau amddiffyn plant ar eu gwasanaethau. Rydym eisoes yn annog VSPs i gynnal asesiadau risg, ond o dan y weithdrefn newydd bydd yn ofynnol i lwyfannau gymryd camau i liniaru'r risgiau hyn. Bydd Ofcom yn cynhyrchu codau ymarfer sy'n nodi'r hyn y gall pob gwasanaeth wedi'i reoleiddio ei wneud i liniaru'r risg o niwed, a chanllawiau ar broses a argymhellir ar gyfer asesu risg. Mae ein map ffordd, a gyflwynwyd ar ei newydd wedd yn ddiweddar, yn esbonio ein bod yn bwriadu ymgynghori ar y cam rheoleiddio diogelwch plant yng ngwanwyn 2024.

## Yr hyn rydym wedi'i ddarganfod eleni

Rydym wedi cywain mwy o wybodaeth gan VSPs er mwyn deall yn well sut maent yn amddiffyn plant rhag dod ar draws fideos a allai fod yn niweidiol ar-lein. Nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o fesurau VSPs, ond yn hytrach mae'n taflu goleuni ar sut mae tair llwyfan fawr - TikTok, Twitch, a Snap - yn ceisio amddiffyn plant rhag *cyrchu* fideos a allai fod yn niweidiol. **Fe wnaethom ganolbwyntio ar TikTok, Twitch a Snap oherwydd eu bod yn arbennig o boblogaidd gyda defnyddwyr dan 18 oed.**

Dyma ein prif ganfyddiadau:

- **Mae pob un o'r tri VSP yn gorfodi eu cyfyngiad isafswm oedran o 13 drwy ddibynnu ar ddefnyddwyr i ddatgan eu hoedran yn gywir wrth gofrestru.** Mae TikTok a Twitch yn ei adael yn agored i ddefnyddwyr nodi eu hoedran. Fodd bynnag, mae'n hawdd i ddefnyddwyr dan oed gael mynediad trwy nodi oedran 13+ ffug. Mae model Snap yn debyg ond mae gan y rhyngwyneb osodiad diofyn o 13 oed o leiaf - y dyddiad agosaf sydd ar gael i ddewis wrth fewnbynnu dyddiad geni yw 13 mlynedd cyn y dyddiad presennol. Dylai pob un o'r tri VSP archwilio sut y maent yn adnabod plant a'u hatal rhag profi niwed.
- **Mae TikTok, Twitch, a Snap yn gorfodi cyfyngiad oedran gan ddefnyddio ystod o ddulliau i nodi cyfrifon a allai fod dan oed, er nad yw eu heffeithiolrwydd wedi'i sefydlu eto.** Ymhlith y dulliau mae technolegau deallusrwydd artiffisial (AI) a chymedrolwyr dynol. Byddwn yn archwilio dulliau sicrwydd oedran ymhellach fel

rhan o'n gwaith parhaus o dan y drefn VSP. Yn seiliedig ar y niferoedd sydd ar gael, mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch nifer y cyfrifon dan oed sy'n bodoli ar hyn o bryd.

- **Mae angen cyfrif ar blentyn i gyrchu'r rhan fwyaf o gynnwys Snap neu TikTok, ond nid oes angen cyfrif arno/arni i wylio'r mwyafrif o fideos ar Twitch.** Mae hyn yn golygu y gall unrhyw ddefnyddiwr Twitch, waeth beth fo'i oedran, weld yr holl gynnwys ar lwyfan Twitch ar hyn o bryd heb gofrestru - gan gynnwys unrhyw fideo lle mae label *aeddfed* wedi'i gymhwyso (gweler isod).
- **Mae'r tri VSP yn defnyddio gwahanol ddulliau o ddosbarthu a labelu cynnwys fel rhywbeth nad yw'n addas i blant – ond weithiau gall plant ddod ar draws niwed o hyd.** Mae TikTok yn dosbarthu cynnwys yn seiliedig ar rai themâu aeddfed, mae Snap yn graddio cynnwys ar Discover a Spotlight i sicrhau ei fod yn briodol i'r oedran, ac mae Twitch wedi cyflwyno labeli cynnwys manylach ar gyfer rhai mathau o gynnwys. Ond heb reolaethau mynediad cadarn a mesurau diogelwch effeithiol cyfatebol, mae'n bosib i blant ddod ar draws cynnwys niweidiol o hyd. Er enghraifft, gall holl ddefnyddwyr Twitch - wedi'u mewngofnodi ai beidio - weld cynnwys o'r fath trwy ddiystyru'r label rhybudd.
- **Mae gan TikTok a Snap ill dau reolaethau rhieni sydd wedi'u dylunio i roi rhywfaint o oruchwyliaeth i rieni a gofalwyr o weithgarwch ar-lein eu plant.** Yn hytrach, mae Twitch yn dibynnu ar rieni yn goruchwylio plant mewn amser real pan fyddant ar y gwasanaeth.

## Ein camau nesaf

Bydd Ofcom yn parhau i siarad â VSPs i ddysgu mwy am eu dulliau gweithredu ac i ysgogi gwelliannau angenrheidiol i amddiffyn plant yn well. Os nad ydym yn fodlon bod gwasanaeth yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, byddwn yn cymryd camau gorfodi. Mae rheoleiddio VSPs a'u dwyn i gyfrif hefyd yn ein helpu ni wrth baratoi i reoleiddio gwasanaethau ar-lein eraill o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.